# Adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg 2022-23

## Y Brifysgol Agored

Ionawr 2024

# Cynnwys

1. Cyflwyniad 3
2. Llywodraethant 5
3. Cydymffurfio 6
4. Ffocws ar y flwyddyn i ddod 14

# 1. Cyflwyniad

Yr adroddiad hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yw'r chweched adroddiad i'w lunio gan Y Brifysgol Agored yn unol â safonau 166, 172 a 178.

Yn yr un modd â darparwyr addysg uwch eraill yng Nghymru, cafodd Y Brifysgol Agored hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 29 Medi 2017. Er bod Y Brifysgol Agored wedi'i datganoli'n rhannol (Y Brifysgol Agored yng Nghymru), mae'r hysbysiad cydymffurfio a'r safonau dilynol yn gymwys i'r Brifysgol Agored fel un endid. Fodd bynnag, mae'r safonau eu hunain yn gymwys i staff, myfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae staff yng Nghymru'n parhau i weithio ar sail hybrid, gan dreulio rhan o'r wythnos yn gweithio o adref, a rhan o swyddfa'r Brifysgol Agored yng Nghymru yng Nghaerdydd. Er gwaethaf hyn, mae swyddfa'n parhau i fod yn ganolbwynt prysur o weithgarwch yng nghanol y ddinas, ac yn fan lle rydym yn parhau i gynnig ystod o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n safle sy'n cael ei ddefnyddio gan ein staff addysgu a'n staff cymorth, a defnyddir y Gymraeg fel iaith gwaith gan nifer cynyddol. Mae llawer o staff eraill gan gynnwys darlithwyr cyswllt a thiwtoriaid staff yn weithwyr cartref dynodedig, sy'n golygu bod y Brifysgol Agored yn wir yn brifysgol Cymru gyfan.

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Brifysgol Agored ei darpariaeth addysgu Cymraeg i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu ddatblygu sgiliau Cymraeg. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a phrifysgolion ledled Cymru, maent bellach yn gallu derbyn gwersi Cymraeg ar-lein. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â model gweithio hybrid y brifysgol, gan ganiatáu i staff ddysgu o'u desgiau, waeth beth fo'u man gwaith. Mae hyn hefyd wedi galluogi'r brifysgol ymestyn y cynnig i ddarlithwyr cyswllt a staff y tu allan i Gymru.

Mae'r Brifysgol Agored wedi datblygu pecyn cymorth cwricwlwm cynhwysol, gyda'r nod o gael ei ddefnyddio gan yr holl staff sy'n ymwneud â datblygu cwricwlwm, addysgu a/neu ddysgu. Rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y pecyn

cymorth, gyda'r canllawiau diweddaraf ac eglurder o'r ystyriaethau allweddol, a phwysigrwydd cynllunio cwricwlwm sy'n mynd ati i ddarparu cyfleoedd Cymraeg i fyfyrwyr. .

Yn ystod y flwyddyn academaidd, bu'r brifysgol yn destun ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg i mewn i ddarpariaeth hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd o'r farn y dylai hyfforddiant fod yn orfodol i bob aelod o staff. Mae'r sefydliad mewn sefyllfa unigryw fel yr unig brifysgol pedair cenedl i ddod o dan fframwaith safonau'r Gymraeg. O ganlyniad, mae ganddi nifer o gydweithwyr na fydd yn cyfarfod â staff, myfyrwyr neu aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. Ar y llaw arall, bydd angen dealltwriaeth fanwl o rwymedigaethau'r Brifysgol Agored i siaradwyr Cymraeg ar lawer o staff eraill, yn enwedig y rhai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r Brifysgol Agored bellach wedi cynhyrchu cynllun gweithredu drafft ar gyfer darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff ar ddwy lefel. Bydd hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth sylfaenol a fydd yn cael ei hymgorffori yn ein hyfforddiant cydraddoldeb sydd yn orfodol i bawb; a hyfforddiant manwl a fydd yn hanfodol i staff penodol. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar gan y Comisiynydd.

Mae arlwy academaidd y Brifysgol Agored yn y Gymraeg yn parhau i ddatblygu. Hyd yma, mae 373 o gyrsiau ac adnoddau rhad ac am ddim wedi'u cyhoeddi yn y Gymraeg ar ein platfform dysgu am ddim OpenLearn Cymru/Wales, gyda mwy yn yr arfaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod. Yn hydref 2022, graddiodd y grŵp cyntaf o fyfyrwyr o'n rhaglen TAR dwy flynedd, sy'n cael ei chyflwyno yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

# 2. Llywodraethu

Mae gan Grŵp Goruchwylio'r Gymraeg y Brifysgol Agored drosolwg strategol o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ar draws y brifysgol, gan gynnwys cydymffurfio â'r safonau.

Cadeiriwyd y grŵp gan gyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru, Louise Casella. Mae aelodau staff o bob rhan o'r brifysgol wedi'u penodi i'r grŵp i ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau Pobl
- Gwasanaethau Academaidd
- Llywodraethu
- Ffurflenni
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Myfyrwyr
- TG

Ymddeolodd Louise Casella ym mis Mehefin 2023, a dechreuodd ei holynydd, Ben Lewis, yn y swydd ym mis Rhagfyr. Bydd y grŵp goruchwylio yn cyfarfod ddwywaith yn ystod 2024 gyda Ben Lewis yn gadeirydd.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru hefyd wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar yr iaith Gymraeg a gaiff ei gadeirio ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Dysgu a Chwricwlwm a'r Uwch Reolwr (Cyllid a Ffioedd). Mae'r grŵp yn cynnwys staff cymorth ac academaidd o bob rhan o'r Brifysgol Agored, ac mae'n canolbwyntio ar nodi cyfleoedd i wella'r defnydd y Gymraeg yn y meysydd addysgu, dysgu ac asesu.

# 3. Cydymffurfiaeth

## A. Safonau cyflenwi gwasanaethau

Mae'r Brifysgol Agored wedi mabwysiadu'r safonau canlynol yn llawn:

| Safonau | Dyddiad gosod |
|---|---|
| 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 19, 20, 21, 22, 24, 24A, 26A, 27, 27A, 27D, 29, 29A, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 40, 40A, 41, 42, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 52, 53A, 53B, 54, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 65, 66, 67, 68, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 76A, 78, 79, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 90A, 93 | 1 Ebrill 2018 |
| 53, 55, 80, 81, 81A, 83, 84 | 1 Hydref 2018 |

| Cwynion a derbyniwyd | Manylion | Datrysiad |
|---|---|---|
| 2 Hydref 2022 | Cyflwynodd aelod o'r cyhoedd gŵyn i'r Brifysgol Agored am ei hymatebion i ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan Senedd Cymru. Am fod y Senedd yn cyhoeddi'r dogfennau ar ei gwefan, teimlai'r achwynydd y dylid eu hanfon yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. | Rhoddodd y Brifysgol Agored sicrhad i'r achwynydd nad oes gofyniad statudol i'r sefydliad anfon ymatebion i ymgynghoriadau yn ddwyieithog. Bydd y Brifysgol Agored yn parhau i anfon ymatebion yn newis iaith yr aelod o staff sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r ymateb i'r ymgynghoriad. |

Mae gwaith diweddar i sicrhau'r gydymffurfiaeth orau â'r safonau hyn yn cynnwys:

- recriwtio mwy o staff sy'n siarad Cymraeg i'n tîm recriwtio a chefnogi myfyrwyr
- safoni fideos ar gyfryngau cymdeithasol i gynnwys is-deitlau ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg waeth beth fo iaith y pwnc neu'r post ar y cyfryngau cymdeithasol
- hysbysebu cyfleoedd Cymraeg ee TAR, rolau gyda'r Brifysgol Agored trwy gyfryngau a gwefannau Cymraeg eu hiaith
- cynnwys profiadau myfyrwyr Cymraeg eu hiaith fel rhan o'n strategaeth farchnata ar-lein
- arwain ar gynhyrchu cyfres o bodlediadau dwyieithog *Barod ar gyfer y Brifysgol*, a gynhyrchwyd ochr yn ochr â myfyrwyr a phrifysgolion ledled Cymru.

## B. Safonau llunio polisi

Mae'r Brifysgol Agored wedi mabwysiadu'r safonau canlynol yn llawn:

| **Safonau** | **Dyddiad gosod** |
|---|---|
| 94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 104 | 1 Hydref 2018 |

Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â safonau llunio polisi yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r gwaith canlynol wedi parhau ers y dyddiad gosod:

- Mae'r adnodd sgrinio ar gyfer asesu polisïau yn parhau i gael ei ddefnyddio, sy'n helpu i ystyried unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg, a mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r staff wedi archifo polisïau, ac mae'r adnodd wedi'i ailddefnyddio wrth i bolisïau gael eu diwygio.

## C. Safonau gweithredu

Mae'r Brifysgol Agored wedi mabwysiadu'r safonau canlynol yn llawn.

| Safonau | Dyddiad gosod |
|---|---|
| 106, 107, 108, 109, 110, 111, 119, 119A, 121, 122, 123, 123A, 125, 126, 127, 132, 134, 135, 137, 138, 139, 140, 141, 142, 143, 144, 144A, 145, 145A, 146, 146A, 146B, 148, 149, 150, 151, 152, 153 | 1 Ebrill 2018 |
| 105, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118 | 1 Hydref 2018 |
| 111 | 1 Ebrill 2019 |

Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â safonau gweithredu yn ystod y cyfnod adrodd.

## Sgiliau Cymraeg – yn unol â safonau 134 a 158

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi cynnal arolwg o sgiliau Cymraeg cyflogeion sy'n gweithio yng Nghymru. Mae canlyniadau'r arolwg, yn seiliedig ar gyfradd cwblhau o 77% fel a ganlyn:

| Sgiliau gwrando Cymraeg | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dim sgiliau | 54 | 33 |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 15 | 9 |
| Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg (Ble mae....? / Ga i siarad â....?) | 31 | 19 |
| Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg | 19 | 12 |
| Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol yn ymwneud â gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl | 9 | 6 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gallu dilyn y mwyafrif o sgyrsiau yn ymwneud â gwaith, gan gynnwys trafodaethau grŵp | 5 | 3 |
| Yn gallu deall pob sgwrs yn ymwneud â gwaith | 30 | 18 |
| **Sgiliau darllen Cymraeg** | | |
| Dim sgiliau | 54 | 33 |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 17 | 10 |
| Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol (e.e. arwyddion neu nodiadau byr syml) | 38 | 23 |
| Yn gallu darllen deunydd sylfaenol yn ymwneud â gwaith (yn araf) | 11 | 7 |
| Yn gallu darllen deunydd arferol gyda chymorth geiriadur | 6 | 4 |
| Yn gallu deall y mwyafrif o ddeunydd yn ei faes gwaith ei hun | 7 | 4 |
| Yn gallu deall pob deunydd yn ymwneud â gwaith | 30 | 18 |
| **Sgiliau siarad Cymraeg** | | |
| Dim sgiliau | 56 | 34 |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 19 | 12 |
| Yn gallu ateb ymholiadau syml (e.e. cyfarchion, (Ble mae....? / Ga i siarad â....?) | 35 | 21 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gallu ateb ymholiadau syml yn ymwneud â gwaith | 9 | 6 |
| Yn gallu sgwrsio â rhywun, gyda rhywfaint o betruster, am faterion gwaith arferol | 12 | 7 |
| Yn gallu siarad yr iaith yn y mwyafrif o sefyllfaoedd gan ddefnyddio rhai geiriau Saesneg | 3 | 2 |
| Rhugl - yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau am gyfnod estynedig o amser lle bo angen | 28 | 17 |
| **Sgiliau ysgrifennu Cymraeg** | | |
| Dim sgiliau | 70 | 43 |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 17 | 10 |
| Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol (Diolch am y llythyr, Dyma gopi o.....) | 27 | 17 |
| Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth | 10 | 6 |
| Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygu | 8 | 5 |
| Yn gallu paratoi y mwyafrif o ddeunydd ysgrifenedig, gyda rhywfaint o gymorth i'w ddiwygio | 14 | 9 |
| Medrus – yn gallu cwblhau gwaith ysgrifenedig cymhleth heb fod angen ei ddiwygio | 17 | 10 |

Mae'r Brifysgol Agored hefyd wedi cynnal arolwg o sgiliau Cymraeg darlithwyr cyswllt y nodwyd eu bod yn gweithio yng Nghymru gyda chyfradd gwblhau o 26%. Yr oedd yr arolwg hwn yn opsiynol.

| Sgiliau gwrando Cymraeg | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dim sgiliau | 68 | 50 |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 9 | 7 |
| Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg (Ble mae….? / Ga i siarad â….?) | 21 | 15 |
| Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg | 9 | 7 |
| Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol yn ymwneud â gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl | 9 | 7 |
| Yn gallu dilyn y mwyafrif o sgyrsiau yn ymwneud â gwaith, gan gynnwys trafodaethau grŵp | 4 | 3 |
| Yn gallu deall pob sgwrs yn ymwneud â gwaith | 16 | 12 |
| **Sgiliau darllen Cymraeg** | | |
| Dim sgiliau | 65 | 47 |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 8 | 6 |
| Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol (e.e. arwyddion neu nodiadau byr syml) | 27 | 20 |
| Yn gallu darllen deunydd sylfaenol yn ymwneud â gwaith (yn araf) | 6 | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gallu darllen deunydd arferol gyda chymorth geiriadur | 10 | 7 |
| Yn gallu deall y mwyafrif o ddeunydd yn ei faes gwaith ei hun | 5 | 4 |
| Yn gallu deall pob deunydd yn ymwneud â gwaith | 15 | 11 |
| **Sgiliau siarad Cymraeg** | | |
| Dim sgiliau | 70 | 51 |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 8 | 6 |
| Yn gallu ateb ymholiadau syml (e.e. cyfarchion, (Ble mae….? / Ga i siarad â….?) | 25 | 18 |
| Yn gallu ateb ymholiadau syml yn ymwneud â gwaith | 3 | 2 |
| Yn gallu sgwrsio â rhywun, gyda rhywfaint o betruster, am faterion gwaith arferol | 11 | 8 |
| Yn gallu siarad yr iaith yn y mwyafrif o sefyllfaoedd gan ddefnyddio rhai geiriau Saesneg | 1 | 1 |
| Rhugl - yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau am gyfnod estynedig o amser lle bo angen | 18 | 13 |
| **Sgiliau ysgrifennu Cymraeg** | | |
| Dim sgiliau | 83 | 61 |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 7 | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol (Diolch am y llythyr, Dyma gopi o…..) | 17 | 12 |
| Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth | 3 | 2 |
| Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygu | 7 | 5 |
| Yn gallu paratoi y mwyafrif o ddeunydd ysgrifenedig, gyda rhywfaint o gymorth i'w ddiwygio | 11 | 8 |
| Medrus – yn gallu cwblhau gwaith ysgrifenedig cymhleth heb fod angen ei ddiwygio | 8 | 6 |

## Hyfforddiant - Yn unol â safonau 135 a 159

Yn unol â safon 135, rydym wedi gwneud darpariaethau i alluogi ein staff yng Nghymru i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol yn Gymraeg, lle y caiff yr hyfforddiant yn y meysydd hynny ei ddarparu yn Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd, ni wnaeth unrhyw aelod o'r staff ddewis yr opsiwn Cymraeg. Rydym wedi atgoffa staff yn ddiweddar o'u hawl i gael hyfforddiant perthnasol yn Gymraeg.

## Recriwtio - Yn unol â safon 145 a 162

Rhwng 1 Awst 2022 a 1 Awst 2023, recriwtiodd Y Brifysgol Agored y nifer canlynol o weithwyr ar gyfer swyddi â gofynion iaith penodol i'r Brifysgol Agored yng Nghymru:

(i) Swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol – 1

(ii) Swyddi lle roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd – 0

(iii) Swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol – 26

(iv) Swyddi lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol – 0

# 4.Ffocws ar y flwyddyn i ddod

Blaenoriaeth blwyddyn academaidd 2023-24 fydd ailwampio ein hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg i staff. Bydd hyn yn galluogi'r Brifysgol Agored i sicrhau bod gan yr holl staff ymwybyddiaeth sylfaenol o'r Gymraeg, ei rôl ym mywyd cyfoes Cymru, yn ogystal â'i statws cyfreithiol. Bydd hefyd yn ein helpu i gynyddu gwybodaeth fanwl gydag adrannau allweddol a staff, fel y gallant barhau i gynnig gwasanaeth rhagorol i gydweithwyr, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd.

Wrth galon cenhadaeth y Brifysgol Agored yw helpu pobl ledled Cymru i gyflawni eu nodau trwy ddysgu. Rydym yn siarad â mwy o golegau addysg bellach (AB), mwy o grwpiau cymunedol, a mwy o weithwyr proffesiynol nag erioed o'r blaen i ddangos yr hyn y gall y brifysgol ei gynnig. Bydd y Gymraeg yn ganolog i hyn: yn ystod 2023-24, bydd ein rhaglen NEPE ddwyieithog yn cael ei chyflwyno i fyfyrwyr AB yng Nghymru; bydd siaradwyr Cymraeg mewn pum cymuned ledled Cymru yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn ein rhaglen REACH Cymru i'w helpu i gysylltu â'u treftadaeth; a byddwn yn darparu llwyfan e-ddysgu cwbl ddwyieithog ochr yn ochr â TUC Cymru.

Y tu hwnt i'n cydymffurfiad â'r safonau, bydd ffocws y Brifysgol Agored ar ddatblygu arferion dysgu, addysgu a chwricwlwm i wella cyfleoedd i fyfyrwyr a staff ddefnyddio'r Gymraeg – mewn ystyr academaidd a chymunedol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cymuned ymarfer ymhlith ein staff Cymraeg eu hiaith i wella ffyrdd o weithio a chymorth cymheiriaid. Bydd hyn yn cael ei arwain gan ein grŵp gorchwyl a gorffen ar yr iaith Gymraeg.